# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 4

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Talu, adennill ac ad-dalu treth*

### 44 Gohirio adennill

(1) Mae adran 181B o DCRhT (ceisiadau i ohirio) (a fewnosodir gan baragraff 63 o Atodlen 23 i DTTT) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3)—

(a) hepgorer yr "a" ar ôl paragraff (a), a

(b) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder ", ac

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, y rhesymau pam y mae'r person sy'n gwneud y cais yn credu y byddai adennill y swm (a llog ar y swm hwnnw) yn achosi caledi ariannol i'r person."

(3) Yn is-adran (4)—

(a) daw'r geiriau o "yn credu" i "yn ormodol," yn baragraff (a), a

(b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder "a

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 44. (See end of Document for details)*

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, â rheswm i gredu y byddai adennill y swm (a llog ar y swm hwnnw) yn achosi caledi ariannol i'r person,".

(4) Yn is-adran (5)—

(a) daw'r geiriau o "yn credu" i "yn ormodol," yn baragraff (a), a

(b) yn lle'r geiriau o "caiff ganiatáu" i'r diwedd rhodder "neu

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, â rheswm i gredu mai dim ond mewn cysylltiad â rhan o'r swm (a llog ar y rhan honno) y byddai adennill yn achosi caledi ariannol i'r person,

caiff ACC ganiatáu'r cais mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r swm sy'n briodol yn ei farn."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 44 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 44 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 44.